

Ysgol Gymraeg Casnewydd



Croeso i / Welcome to

Derbyn / Reception

Jemeima Mop



Pili Pala



Meithrin Meddylliau Yfory Gyda'n Gilydd / Nurturing the minds of tomorrow together



Llawlyfr
Handbook
2020 - 2021

TABLE OF CONTENTS

Croeso / Welcome	3
Manylion ein Hysgol / Our School Details	4
Yr Iaith Gymraeg / The Welsh Language	5
Ein Cwricwlwm / Our Curriculum	6
Gwisg Ysgol / School Uniform	7
Ymarfer Corff (Y.C.) / Physical Education (P.E.).....	8
Gemwaith/ Jewellery.....	8
Dillad tu allan / Outdoor clothing	8
Safle'r Ysgol / The School Site	9
Iechyd a Diogelwch ar safle'r ysgol / Health and Safety on School Site	9
Parcio Ceir / Car Parking	10
Presenoldeb / Attendance.....	10
Trafnidiaeth Ysgol / School Transport.....	10
Trefniadau Dechrau a Diwedd Pob Sesiwn / Beginning and End of session arrangements.....	11
Gofal Plant - cyn ac ar ôl ysgol / Wraparound Childcare	13
Clwb Brecwast / Breakfast Club.....	13
Clwb Carco / After School Club	13
Cadw'n Iach / Keeping Healthy	14
Cinio / Lunch.....	14
Byrbryd / Snack	15
Poteli dŵr/ Bottles of water	15
'Cynllun gwên'/ 'Design to smile' programme	16
Cacennau Penblwydd / Birthday Cakes.....	16
Dysgu Tu Allan / Outdoors Learning.....	16
Cyswllt Cartref / Home-School Links	17
Cysylltu gyda rhieni/gofalwyr / Contacting parents/guardians.....	17
Dysgu / Learning.....	18
Tedi / Teddy.....	18
Cyfarfodydd Rhieni/Athrawon	19
Parent/Teacher Consultations.	19
Adroddiadau / Reports.....	19
Sut allwch chi helpu? / How can you help?	20

CROESO / WELCOME

Croeso cynnes i ddosbarthiadau Derbyn Jemeima Mop a Pili-Pala. Edrychwn ar addysg yn y blynyddoedd cynnar fel rhan holl bwysig yn addysg y plant. Cânt brofiadau sy'n creu sylfaen gadarn ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae angen cydweithrediad ysgol a chartref er mwyn sicrhau meithrin y plant yn addysgiadol a chymdeithasol.

Rhoddir profiadau di-ri yn yr awyr agored ac o dan do i'r plant er mwyn datblygu amryw o sgiliau, ac wrth gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ganolog i hyn, tyfant fel unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Ein nod yw creu awyrgylch hapus, cartrefol, croesawgar a hamddenol yma yn y Derbyn a hyderwn y bydd eich plentyn yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol ei oes.



A warm welcome to our Reception classes, Jemeima Mop and Pili-Pala. We look upon the education your child will receive in the early years as being of utmost importance. The experiences provided will create a sound foundation for the years ahead.

Cooperation is needed between the home and school to develop and nurture the child, both educationally and socially.

We provide a variety of exciting learning experiences indoors and outdoors to develop a range of skills, through the medium of Welsh. Central to this, they will grow into healthy, confident individuals ready to live fulfilling lives as valued members of society.

We aim to provide a happy, homely, welcoming and relaxed learning environment in Reception, and we are confident that your child will develop into ambitious, capable learners ready to learn throughout their lives.



MANYLION EIN HYSGOL / OUR SCHOOL DETAILS

Gwybodaeth / information	
Athrawes Jemeima Mop	Miss R Blackmore
Athrawes Pili-Pala	Miss R Porter
Cynorthwyr Teaching Assistants	Miss A Stephens (am) Miss E Hodges
Pennaeth Head Teacher	Mrs C Parry
Dirprwy Bennaeth Deputy Head Teacher	Mrs R Evans
Arweinydd Cyfnod Sylfaen Foundation Phase Leader	Mrs H Phillips
Swyddogion Gweinyddol yr Ysgol School Support Officers	Mrs S Jones Mrs M Evans Mrs A Knight
Rhif Ffôn Phone Number	01633 290270
Cyfeiriad Address	Ysgol Gymraeg Casnewydd Hartridge Farm Rd Casnewydd / Newport NP18 2LN
Ebost Email	ysgol.gymraegcasnewydd@newport.gov.uk
Gwefan Website	www.ysgolgybraegcasnewydd.co.uk
Trydar Twitter	@YsgolGCasnewydd



YR IAITH GYMRAEG / THE WELSH LANGUAGE

Mae yna nifer o apiau, gwefannau, rhaglenni teledu a grwpiau i roi cymorth i chi:


There are many apps, websites, TV programmes and groups to support you:

					
Pacca Alpaca	Rapsgaliwn	Llanargollen	Tric a Chlic	Tric a Chlic 2	Babi Bach Cymraeg
					
Cyw S4C	Cyfri gyda Cyw	Cyw a'r Wyddor	Ben Dant	Mwnci Bach	Llyfrau Bach Magi Ann
					
Llyfrau Hwyl Magi Ann 1	Llyfrau Hwyl Magi Ann 2	Llyfrau Hwyl Magi Ann 3	Alun yr Arth	Sion Corn yn ffonio	Cymraeg for Kids
					
Wdw Rwdlan	Rhifau	Amser Stori Cyw	Atebol Amser Stori	Menter Iaith Casnewydd	Mudiad Meithrin

EIN CWRICWLWM / OUR CURRICULUM

Dyma ein gweledigaeth ni ar gyfer ein cwricwlwm – sef sut rydyn ni'n cynllunio ar gyfer ein dysgwyr:

Here is our vision for our curriculum – how we plan for our learners:



GWISG YSGOL / SCHOOL UNIFORM

Gwisg Ysgol / The Uniform	
Siwmpwr <i>Sweatshirt</i>	Gwyrdd gyda bathodyn ysgol Jade with embroidered school badge.
Cardigan	Gwyrdd gyda bathodyn ysgol Jade with embroidered school badge.
Crys Polo Polo shirt	Melyn/Gwyn/Glas/Gwyrdd gyda bathodyn ysgol White/Navy/Jade with the school badge.
Trowsus/siorts/ffrog/sgert Trousers/shorts/dress/skirt	Glas tywyll Navy
Esgidiau Shoes	Du neu las tywyll Black or navy
Gwisg Ymarfer Corff P.E. Kit	Crys-T, siorts, esgidiau loncian/daps (mae'n bosib i brynu crys-T ymarfer corff ysgol, ond mae hyn yn ddewisol) T-shirt, shorts, trainers/daps (it is possible to buy a school P.E. T-shirt, but it is optional)

Mae'r wisg ysgol ar gael o siop: / School uniform is available from:

National School Wear, Cambrian Rd, Casnewydd / Newport (gyferbyn â'r orsaf drên) (opposite train station).

Os gwelwch yn dda rhowch enw eich plentyn yn **glir** ar **bob** dilledyn ysgol.

Please ensure that your child's name is written or sewn **clearly** on **all** items of school clothing.



Ymarfer Corff (Y.C.) / Physical Education (P.E.)

- Un sesiwn yr wythnos.
One session every week.
- Does dim rheol o ran lliw siorts a chrys-T.
There is no rule for the colour of shorts and T- shirt.
- Cewch wybod mwy am amserlen y Derbyn ym mis Medi.
You will receive more information on the Reception timetable in September.

Gemwaith/ Jewellery

- **Clustlysau** – styds yn unig a gall plant eu cadw nhw yn eu clustiau yn ystod sesiynau Y.C.
Earrings – studs only and they can remain in during P.E.
- Dim modrwyau, breichledi na mwclysau oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch (oni bai fod rhesymau meddygol / crefyddol, ble mae'n rhaid rhoi cais ysgrifenedig i'r Pennaeth).
No rings, bracelets or necklaces due to health and safety (unless worn for medical/religious reasons and this must have written request from parent/guardian).

Dillad tu allan / Outdoor clothing

Cofiwch, bydd y dosbarth allanol yn cael ei ddefnyddio ymhob tywydd a does dim tywydd gwael, dim ond dillad gwael!

Remember, the outdoor classroom will be used in all weathers and there is no bad weather only bad clothes!

Sicrhewch fod dillad ar gyfer tywydd gwlyb ac oer yn yr ysgol:
Make sure you have clothing for wet and cold weather in school:

- Esgidiau glaw a chot law
Wellies and a raincoat
- Gall y rhain gael eu cadw mewn bag ar fachyn y plentyn
Can be kept in a bag on his/ her peg
- Os gwelwch yn dda ysgrifennwch enw eich plentyn yn glir ar y got ac ar yr esgidiau glaw.
Please could you write your child's name clearly on the coat and wellies.



SAFLE'R YSGOL / THE SCHOOL SITE

Iechyd a Diogelwch ar safle'r ysgol / Health and Safety on School Site



- Am resymau iechyd a diogelwch, gofynnwn i chi beidio gadael i'ch plant ddringo'r wal sydd yn y maes parcio. For Health and Safety reasons please ensure that your child does not play on the walls which are situated on the school grounds.
- Ni fydd yr ysgol yn derbyn iaith nac ymddygiad anaddas ar safle'r ysgol. Os

gwelwch yn dda, byddwch yn gwrtais.

The school will not tolerate any foul language or abusive behaviour on school site, please be courteous.

- Gofynnwn yn garedig i chi beidio gadael i'ch plant fod ar sgwter neu feic ar safle'r ysgol. Mae hi'n hynod brysur ar ddechrau a diwedd y dydd gyda nifer o bobl a phlant o amgylch a rhaid sicrhau diogelwch pawb. Os ydych yn defnyddio un i deithio o'r tŷ i'r ysgol, yna **mae'n rhaid i oedolyn gymryd rheolaeth ohono ar safle'r ysgol.**

Please ensure that no child comes onto school site on a scooter or bike, it is very busy in the carpark at the beginning and at the end of every day, and we need to ensure the safety of all. If using one to travel between home and school, **an adult must take control of the bike/scooter on school site.**

- Does dim cŵn i fod ar safle'r ysgol ar unrhyw adeg, oni bai bod cytundeb a ganiatawyd ym mlaen llaw gyda'r Pennaeth.

No dogs are allowed on the school site at any time unless as part of an organised and permitted agreement.

- Mae safle'r ysgol, gan gynnwys y maes parcio, yn ardal Dim Ysgmygu.

The school site, including the car park, is a No Smoking area.

Parcio Ceir / Car Parking

Mae yna ardal benodol o fewn maes parcio'r ysgol ar gyfer ceir rhieni/gwarchodwyr. Mae'n ofynnol i **rieni/gwarchodwyr barcio o fewn y gatiau mewnol**. (Staff a bysiau ysgol yn unig sydd â'r hawl i barcio neu yrru o flaen adeiladau'r ysgol a'r Meithrin.) Mae'r trefniadau yma yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch ein disgyblion ar bob adeg.

There is a designated area within the school car park for parent/ guardian parking. **Parents/ guardians are required to park within the inner gates**. (Only staff and school buses are allowed to park or drive in front of the school and Nursery buildings.) These arrangements are essential to ensure the safety of our pupils at all times.

Presenoldeb / Attendance

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn bwysig. **Gofynnwn i chi ddod a'ch plentyn yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod**. Bydd y giat yn agor am 8.45 y bore. **Gofynnwn hefyd i chi gasglu eich plentyn ar amser ar ddiwedd pob diwrnod**.

Attendance and punctuality is important. **We ask that you bring your child on time at the beginning of each day**. The gate opens at 8.45 each morning. **We also ask that you collect your child on time at the end of each day**.

Mae datblygiad eich plentyn yn dibynnu llawer ar bresenoldeb yn yr ysgol. Os yw eich plentyn yn absennol am unrhyw reswm rhaid gadael neges ar beiriant ateb y swyddfa ar fore'r absenoldeb.

Your child's progress in school depends greatly on their attendance during the year. If your child is absent from school for any reason please could you leave a message on the office answering machine on the morning of the absence.

Trafnidiaeth Ysgol / School Transport

Os ydych chi eisiau i'ch plentyn deithio i'r ysgol ar y bws yna fe fydd angen trwydded bws arbennig, sydd ar gael o'r Ganolfan Ddinesig.

If you would like your child to travel to school on the bus he/she needs a school bus pass, obtainable from the Civic Centre.

Cysylltwch â/ Contact:

(01633) 656 656 Trafnidiaeth Ysgol /School Transport



Trefniadau Dechrau a Diwedd Pob Sesiwn / Beginning and End of session arrangements

Derbyn	
8:45 – 8:55	<p>Diwrnodau Sych – plant y Derbyn i fynd at gatieu'r ysgol ar ochr dde yr adeilad a throi i'r chwith i fynychu'u dosbarth. Os gwelwch yn dda, peidiwch gadael plentyn heb oruchwyliaeth cyn i'r gatieau agor am 8:45.</p> <p>Dry days: Reception pupils enter the school gates at the right side of the building and turn left to enter their classrooms, Please, do not leave a child unsupervised before the gates open at 8:45.</p> <p>Diwrnodau gwlyb – plant y Derbyn i fynychu'r ysgol trwy ddrysau'r Neuadd gyferbyn â'r Meithrin. Bydd athrawon ar ddyletswydd i helpu. Wet days: Reception pupils enter the hall doors opposite the Nursery building. Teachers are on duty to support.</p>
9:00 – 9:10	<p>Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 9yb. Os gwelwch yn dda, sicrhewch bod eich plentyn yn cyrraedd mewn da bryd.</p> <p>The school day begins at 9am. Please make sure your child arrives on time.</p>
9:10 – 9:30	Gweithgareddau darllen boreol. Morning reading activities.
9:30 – 12:00 Amser chwarae / Break: 10.30	<p>Bydd sesiynau'r bore yn canolbwyntio ar waith 'leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' a 'Mathemateg a Rhifedd' ymarferol. Bydd y gweithgareddau yma wedi eu seilio ar thema neu brosiect.</p> <p>The morning sessions will concentrate on 'Language, Literacy and Communication' and practical 'Mathematics and Numeracy' skills. The activities will be based on a theme or project.</p>
12:00 – 1:15	Amser cinio / Dinner time
1:15 – 3:25 Amser chwarae / Break: 2.15	<p>Dysgu trawsgwricwlaidd yn ystod sesiynau'r prynhawn, wedi eu seilio ar ddiddordebau'r plant.</p> <p>Cross-curricular learning based on the pupils' interests.</p>
3:30	<p>Amser mynd adref – os gwelwch yn dda, sicrhewch eich bod wedi gadael i'r swyddfa wybod am unrhyw newidiadau i drefniadau casglu/gofal plant/bws cyn 3:00 i sicrhau ein bod yn rhoi'r plant yn y llinellau cywir ar gyfer mynd adref.</p> <p>Home time – please make sure you have notified the office of any change to pick up/childcare/bus before 3:00 to ensure children are placed in the correct line.</p>

Ar **ddiwedd y dydd**, mae plant sy'n teithio adre ar drafnidiaeth ysgol yn cael eu tywys gan staff i'r bws, ble bydd y gofalwr bws yn cymryd cyfrifoldeb dros ofal y plant. Mae'r plant sy'n cael eu casglu gan dacsï neu gwmni gofal plant hefyd yn cael eu tywys yn ddiogel atynt gan staff yr ysgol.

At the **end of the day**, children travelling home on school transport will be escorted by staff to the buses where the escorts take over the responsibility for their welfare. Children collected by taxi or childcare companies are also directly escorted by staff.

Mae **mannau casglu arbennig ar gyfer plant sy'n teithio adref gyda rhieni**:

The **collection points for children travelling home with parents** are:

- Y gât tu ôl i adeilad y Meithrin
The gate behind the Nursery building,

neu / or

- Y gât fach gyferbyn â phrif fynedfa'r ysgol (ond mae angen llythyr caniatâd oddi wrth riant a bydd brawd/chwaer CA2 yn hebrwng y rhai bach.)
The small gate opposite the school entrance (but this needs a permission letter from parents and for KS2 pupils to supervise younger siblings.)

Cyfrifoldeb y rhieni ydy goruchwylio a diogelwch eu plant unwaith mae'r staff wedi trosglwyddo'r gofal ar ddiwedd y dydd.

Parents are responsible for the safety and supervision of their children once they have been transferred to their care at the end of the day.

Os oes angen newid unrhyw drefniadau, rhaid cysylltu gyda'r swyddfa **cyn 3yp** ar 01633290270.

If you wish to change the end of day arrangements, please contact the school office on 01633290270 **before 3pm**.

Mae'r diwrnod ysgol yn gorffen am 3:30yp. Os gwelwch yn dda, gwnewch yn siwr fod yna oedolyn ar y safle i gyfarfod â'r plentyn.

The school day ends at 3:30pm. Please make sure an adult is on site to meet the child.



GOFAL PLANT - CYN AC AR ÔL YSGOL / WRAPAROUND CHILDCARE

Clwb Brecwast / Breakfast Club

- 8:10 – 8:45 (dim mynediad ar ôl 8:30 / no entrance allowed after 8:30)
- Derbyn – Blwyddyn 6 / Reception to Year 6
- Am ddim / Free
- Ffurflenni cofrestru ar gael o'r swyddfa. **Rhaid llenwi ffurflen cyn i'r plentyn ddechrau** (mae yna gymhareb llym staff:plentyn ac felly **bydd yr ysgol yn gadael i chi wybod os oes gennych le**).



Registration forms are available on request from the office and **must be completed before attending** (there are strict staff to children ratios we must adhere to and therefore **we will let you know if you have received a place**).

- Mae disgyblion yn derbyn brecwast iachus ynghyd â chwarae gemau, cymdeithasu gyda ffrindiau a dawnsio/cadw'n heini i gerddoriaeth.

Pupils receive a healthy breakfast in the club as well as playing fun games, socialising with friends and dancing/exercising to music.

Clwb Carco / After School Club

- 3:30 – 5:30 (ond tan 5:00 ar Ddydd Gwener / but until 5:00 on Fridays)
- Derbyn – Blwyddyn 6 / Reception to Year 6
- £7.50 pob sesiwn (Llun i Iau) a £7 y sesiwn Dydd Gwener / £7.50 per session (Monday to Thursday) and £7 (Friday).
- Ffurflen gofrestru yn y swyddfa. **Rhaid llenwi ffurflen cyn dechrau. Bydd angen talu £10 blaendal cyn dechrau hefyd.**

Registration forms are available on request from the office and **must be completed before attending. A £10 deposit is also required beforehand.**

- Mae'r plant yn derbyn byrbryd ac yn chwarae gemau, gwneud celf a chrefft a choginio. Pupils receive a snack in the club as well as playing fun games, arts and craft and cooking tasks.

CADW’N IACH / KEEPING HEALTHY

Cinio / Lunch

- Yn ystod amser cinio, staff yr ysgol sy’n gofalu am y plant.
At lunch time children are cared for by school staff.
- Mae prydau bwyd yr ysgol yn cael eu coginio yng nghegin yr ysgol.
School meals are cooked in the school kitchen.
- Darperir ar gyfer feganiaid a llysfwytawyr – gadewch i ni wybod os oes gan eich plentyn unrhyw anghenion deietegol.
Vegans and vegetarians are provided for – please let us know if your child has any dietary requirements.
- Gall plant ddod â chinio iachus o adre.
Children can bring healthy packed lunches from home.
- Er mwyn cynllunio prydau eich plentyn, mae bwydlenni ar gael o’r swyddfa.
In order to help plan your child’s meals, dinner menus are available from the office on request.
- Mae angen **talw am brydau bwyd o flaen llaw gan ddefnyddio system ‘Parentpay’.**
Ym mis Medi bydd y swyddfa yn rhoi manylion mewngofnodi i chi er mwyn cofrestru ar wefan Parentpay
Meals must be **paid for upfront using the ‘ParentPay’ system. The office will give you a username to enable you to register on the ParentPay website.**
- Nid yw Chartwells, y cwmni bwyd, yn derbyn unrhyw ddyledion.
Chartwells, the catering company, will not allow any debts to be incurred.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau am fwyd amser cinio neu arian cinio, gofynnwch i Mrs Knight yn y swyddfa.
Any queries about dinners or dinner money should be addressed to Mrs Knight in the office.
- Os ydych am wneud cais ‘Prydau am Ddim’, ewch i wefan Awdurdod Lleol Casnewydd am ffurflen. **Nodwch fod angen talu am bob cinio tan mae’r cais prydau am ddim wedi’i gytuno gan yr Awdurdod Lleol.**
If you are eligible to claim for free school meals, please visit Newport Local Authority website for an application form. **Please note that all dinners will have to be paid for until the free meals application has been approved by the L.A.**
- Oherwydd iechyd a diogelwch, os ydych yn darparu cinio o’r cartref, peidiwch danfon poteli gwydr na chaniau i’r ysgol. Sicrhewch fod pob bocs bwyd a photel wedi’i labelu gydag enw’ch plentyn.
In the interest of health and safety, if children have packed lunches, no glass bottles or cans should be brought to school. Please make sure that all lunch boxes and bottle are clearly labelled with your child’s name.



Byrbryd / Snack

- Bydd eich plentyn yn derbyn llaeth a ffrwyth yn ystod y bore.
Your child will be given milk and fruit during the morning.
- Mae'r llaeth yn cael ei roi am ddim gan yr awdurdod addysg, ond bydd tâl bychan am y ffrwyth – £1.00 yr wythnos; i'w dalu ar Ddydd Llun.
The local authority supplies free milk for every child but there is a small charge of £1.00 per week for fruit, to be paid every Monday.
- Rhowch arian eich plentyn mewn amlen gydag enw eich plentyn yn glir arno. Mae'n bosibl talu ymlaen llaw am yr holl dymor os yr hoffech.
Please place your child's money in an envelope with your child's name clearly written on it. It is possible to pay for a term in advance if you prefer.

Poteli dŵr/ Bottles of water

- Mae ymchwil yn dangos fod sgiliau canolbwyntio yn cynhyddu os yw'r ymennydd wedi ei hydradu. O ganlyniad rydyn ni'n annog y plant i ddod â photel o ddŵr (nid sudd na sgwash, er mwyn atal pydredd dannedd).
Research has shown that concentration skills improve if the brain is hydrated. As a result, we encourage children to bring a bottle of plain water into the classroom (not juice or squash, in order to avoid tooth decay).
- Bydd y poteli yn cael eu cadw yn yr ystafell ddosbarth a gall y plant eu hyfed unrhyw bryd yn ystod y dydd.
The bottle will be kept in the classroom and the children are free to drink from it whenever they wish.
- Am resymau glendid, a allwch ysgrifennu enw eich plentyn ar y botel cyn dod i'r ysgol. Anfonir y poteli adref ar ddiwedd pob dydd i'w ail-lenwi.
For hygiene reasons, please ensure that your child's name is written on the bottle before he/she comes to school. The bottles will be returned home at the end of each day to be refilled.

‘Cynllun gwên’/ ‘Design to smile’ programme

- Rydyn ni’n dilyn cynllun brwsio dannedd Rhwydwaith Ysgolion Iachus. Darperir brwsh dannedd i’r plant er mwyn iddynt frwsio eu dannedd yn ddyddiol.
We follow the Healthy Schools Network tooth brushing scheme. Children are provided with a toothbrush each and brush their teeth every day.
- Gofynnir i rieni roi eu caniatâd ar gyfer hyn - darperir ffurflenni.

Parents have to give their consent for this - forms will be provided.



Cacennau Penblwydd / Birthday Cakes

Ni allwn dderbyn cacennau penblwydd i rannu gyda’r plant oherwydd materion alergedd bwyd.

Due to food allergy issues we are unable to accept birthday cakes to share with the other children in the class.

Dysgu Tu Allan / Outdoors Learning

Rhoddir cyfleoedd yn yr amgylchedd dysgu cyfoethog dan do ac awyr agored drwy gydol y dydd, er mwyn ymarfer amrywiaeth o sgiliau trwy chwarae pwrpasol, yn ogystal â’n defnydd o’n hardal ‘Ysgol y Goedwig’.

Your child will have the opportunities to use the rich indoor and outdoor learning environment throughout the day, in order to practise a variety of skills through purposeful play, as well as the use of our ‘Forest School’ area.

Dengys ymchwil bod plant sydd wedi cael profiadau o ddysgu yn yr awyr agored yn dechrau’r ysgol gyda sgiliau cymdeithsol cryf. Gallant weithio mewn grwpiau yn effeithiol gan ddangos lefel uwch o hunan barch ac annibyniaeth.

Research shows that children that have had experience of learning in the great outdoors start school with strong social skills; work effectively in groups and show a high level of self-respect and independence.

CYSWLLT CARTREF / HOME-SCHOOL LINKS

Cysylltu gyda rhieni/gofalwyr / Contacting parents/guardians

- Mae gwefan yr ysgol www.ysgolgybraegcasnewydd.co.uk yn dod â'r ysgol i'ch cartref gyda gwybodaeth fel polisiau ac adroddiadau.
The school website www.ysgolgybraegcasnewydd.co.uk brings the school into your home via information like policies and reports.
- Mae Trydar yr ysgol yn cael ei adnewyddu'n gyson gyda lluniau a fideo o'r dysgu, fel mae'n digwydd. Gallwch ddod o hyd i ni: @YsgolGCasnewydd
Our Twitter newsfeed is updated regularly with photos and videos of the learning as it happens. Find us under @YsgolGCasnewydd
- Ar ddechrau'r flwyddyn, cewch wybodaeth am y manylion dyddiol a'r amserlen ar gyfer y flwyddyn. Mae gwybodaeth bwysig hefyd yn cael ei ddsbarthu mewn llythyron trwy'r flwyddyn.
At the beginning of the year you will receive information about the daily details and timetables for the year. Important information is also distributed via letters throughout the year.
- Rydyn ni'n aml yn anfon negeseuon testun byr er mwyn eich atgoffa o ddigwyddiadau. Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod gennym eich manylion diweddaraf ar ein system gan alw yn y swyddfa os ydych wedi newid eich rhif ffôn.
We often text shorter messages and reminders. Please ensure we have your updated details on our system by calling at the office if you have changed your number.
- Yn ystod y flwyddyn, mae rhieni yn cael eu gwahodd i ddathlu gyda ni: ffair Nadolig/Haf, cyngherddau a sioeau & dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. **Gofynnwn yn garedig i chi beidio rhannu lluniau na fideo sy'n cynnwys plant rhieni eraill ar unrhyw gyfryngau cymdeithasol oherwydd rhesymau diogelu plant.**
During the course of the year, parents are invited to join us to celebrate fairs, shows and concerts & St David's Day celebrations. **We kindly ask you not to share any photographs or videos that include children of other parents on any social media site for safeguarding purposes.**



Dysgu / Learning

Fe fydd manylion am brosiect/ thema'r dosbarth yn cael ei anfon ar ddechrau'r tymor.
Information about the project/ theme of the class will be sent out at the beginning of term.

Mae croeso i rieni gefnogi'r prosiect adref trwy wneud gwaith celf a chreffft neu ddod ag adnoddau/artefactau perthnasol i mewn i'r ysgol.

Parents are welcome to support the project at home by doing art and craft work or by bringing relevant resources/artefacts into school.

Bydd gwaith cartref ar lein ar Hwb- 'Microsoft Teams' yn wythnosol ac mae cyfle i'r plant ddod a llyfr Cymraeg adref yn wythnosol hefyd.

Homework will be set weekly online on Hwb- 'Microsoft Teams' and children also have the opportunity to bring a Welsh book home on a weekly basis.



Tedi / Teddy

- Fe fydd eich plentyn yn derbyn y cyfle i ddod â Tedi (ein tegan dosbarth) adref i aros gyda chi am ddwy noson.

Your child will have the opportunity to take Teddy (our class toy) home to stay for two nights.

- Gofynnwn i chi drafod yr hyn wnaeth Tedi yn eich cartref gyda'ch plentyn, a'i helpu i wneud llun/ ysgrifennu yr hanes yn y dyddiadur.

Please discuss with your child what Teddy did whilst staying with you and help him/her to draw a picture/ write about what Teddy did in the diary.

- Weithiau, fe fydd Tedi yn gofyn cwestiwn athronyddol i chi ateb adref hefyd.

Sometimes, Teddy will ask a philosophical question for you to answer too.

- Bydd eich plentyn yn cael cyfle i rannu'r newyddion yma gyda'r dosbarth.

Your child will then be given the opportunity to share Teddy's news with the rest of the class when they return.

- A wnewch chi sicrhau fod Tedi yn dod yn ôl i'r ysgol y bore/ prynhawn a nodwyd er mwyn i bob plentyn gael y cyfle i fynd â Tedi adref.

Please make sure that you send Teddy back to school on the arranged morning / afternoon to ensure that each child has a turn.



Cyfarfodydd Rhieni/Athrawon Parent/Teacher Consultations.

Mae cyfarfodydd rhieni yn cael eu cynnal ddwy waith y flwyddyn – unwaith yn nhymor yr hydref ac unwaith yn nhymor y gwanwyn.

Formal parent consultations are held twice a year once in the Autumn term and once in the Spring term.

Mae athrawon a chynorthwyr y dosbarth Derbyn neu'r Pennaeth, fel arfer ar gael ar ddechrau neu ar ddiwedd y rhan fwyaf o ddiwrnodau er mwyn siarad gyda rhieni os oes unrhyw bryderon neu gwestiynau.

Reception teachers and Teaching Assistants, or the Head teacher, are usually available at the beginning and end of most days to talk to parents if they have any concerns or queries.

Adroddiadau / Reports.

Caiff adroddiad ffurfiol ar gynnydd eich plentyn ei baratoi yn flynyddol a'i anfon adref ar ddiwedd tymor yr haf.

Formal reports on children's progress are prepared annually. They are sent home at the end of the Summer term.



SUT ALLWCH CHI HELPU? / HOW CAN YOU HELP?

- **Trafod, gan adael i'ch plentyn fynegi barn.**
Discuss, giving your child plenty of opportunity to express own views and feelings.
- **Chwilio am lythrennau / rhifau / siapiau / lliwiau ym mhob man.**
Look for letters/numbers/shapes/colours everywhere.
- **Chwarae gemau megis dominos, snap, loto, 'Mi welaf i...' a.y.y.b.**
Play games such as dominoes, snap, lotto, 'I spy...' etc.
- **Rhoi cyfleoedd i ddefnyddio offer marcio amrywiol, megis pensiliau, pennau ffelt, creonau, sialc, paent, a.y.y.b.**
Plenty of opportunities to explore and use mark-making tools, such as pencils, crayons, chalk, felt pens, paint, etc.
- **Ymarfer bod yn annibynnol e.e. wrth wisgo eu hunain.**
Encourage independence e.g. dressing themselves.
- **Adnabod gwerth rhif ac ymarfer cyfri gwrthrychau.**
Recognise place value and practise counting objects.
- **Profiadau amrywiol – ymweld â llefydd diddorol, chwarae rôl, creu te parti i'r teganau, a.y.y.b.**
Plenty of experiences – visits to interesting places, role-play, tea party for toys, etc.
- **Darllen iddynt a thrafod. Creu stori ar lafar gan ddefnyddio'r darluniau.**
Read to your child, with plenty of discussion.
Look at pictures and make up a story.
- **Gwerthfawrogi hyfrydwch a rhyfeddodau y byd naturiol a newidiadau tymhorol wrth archwilio y tu allan yn yr awyr agored.**
Appreciate the awe and wonder of the natural world and seasonal change while exploring the great outdoors.
- **Sgiliau Personol / Personal Skills**



Cefnogwch eich plentyn i: / Support your child to:

- ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynnol
use the toilet independently
- olchi a sychu dwylo
wash and dry their hands
- fwydo ei hunan gyda llwy, fforc a chylllell
feed themselves and use cutlery correctly
- wisgo / dadwisgo ei hunan ac adnabod ei ddillad / dillad
dress / undress and recognise their own clothes
- rannu a chymeryd tro
share and take turns
- wrando ar eraill pan yn siarad
listen to others when they're talking
- siarad am brofiadau personol
talk about their personal experiences
- eistedd i gwblhau tasg fer
sit and complete a short task
- wrando a dilyn cyfarwyddiadau
listen to and follow instructions

